
# KATIE A TEX

## CHWARAE GEMAU AR-LEIN YN DDIOGEL



/tech she can;

ROYAL AIR FORCE Charitable Trust Inspire

ROYAL AIR FORCE Youth STEM



# GWYBOD PRYD RYDYCH CHI AR-LEIN

Mae Katie a Tex wrth eu bodd yn archwilio gemau, fideos ac apiau, ond nid yw bob amser yn glir beth sy’n digwydd y tu ôl i’r sgrin. Weithiau, ar ôl un clic, gall rhai gemau newid o fod all-lein i fod ar-lein yn gyflym iawn. Mae hyn yn golygu y gallech chi ddechrau sgwrsio neu chwarae gyda phobl go iawn yn hytrach na chymeriadau mewn gêm heb sylweddoli hynny.

Mae bod ar-lein yn gallu bod yn hwyl ac yn gyffrous, yn enwedig pan fyddwch chi’n chwarae gyda ffrindiau. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwybod pryd rydych chi wedi’ch cysylltu â phobl eraill er mwyn i chi allu cadw'n ddiogel. Gall cliwiau fel negeseuon sgwrsio, rhestrau ffrindiau ac eiconau arbennig eich helpu i wybod pryd rydych chi ar-lein. Mae gwybod hyn yn eich helpu i benderfynu â phwy i siarad, beth i'w rannu, a phryd i ofyn am help gan oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo.



# PWY SY'N SIARAD?

Mae Tex wrth ei fodd yn chwarae gemau. Mae'n gwybod nad yw pob llais neu neges y mae'n eu clywed mewn gêm yn dod o'r un lle. Mae rhai lleisiau'n perthyn i gymeriadau yn y gemau, ac mae rhai'n perthyn i bobl go iawn. Allwch chi helpu Tex gyda'r dasg isod drwy edrych ar bob enghraifft a phenderfynu pwy allai fod yn siarad? **Ysgrifennwch "Go iawn" os yw'n berson go iawn a "Gêm" os yw'n gymeriad sy'n siarad yn y gêm.**

1. ________ Draig yn gosod tasg i chi fel rhan o stori'r gêm.
2. ________ Cymeriad o'r enw "CoolGamer99" yn defnyddio clustffonau.
3. ________ Efa, eich ffrind, yn chwarae o'i thŷ.
4. ________ Ceidwad siop sydd bob amser yn dweud yr un peth.
5. ________ Chwaraewr yn teipio negeseuon yn y blwch sgwrsio.
6. ________ Robot yn rhoi awgrymiadau i'ch helpu mewn gemau.
7. ________ Rhywun yn gofyn cwestiynau amdanoch chi eich hun.
8. ________ Cymeriad y mae ei eiriau'n newid yn dibynnu ar yr hyn rydych chi'n ymddiried ynddo.

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Gall pobl ar-lein ddefnyddio pob math o leisiau - robot, doniol neu wirion! Ond os yw rhywbeth yn teimlo'n rhyfedd neu'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus, fe allai fod yn anniogel. Os bydd hynny'n digwydd, dylech bob amser ddweud wrth oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo.

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN


Os yw rhywbeth ar-lein yn teimlo'n ddryslyd, yn annisgwyl neu'n peri pryder, oedwch y gêm a gofyn i oedolyn y gellir ymddiried ynddo am help.



# CYWIR NEU ANGHYWIR?

Mae Tex wedi dysgu bod gwybod pryd rydych chi ar-lein yn gallu eich helpu i wneud dewisiadau mwy diogel. Weithiau nid yw’n hawdd dweud pryd mae gêm neu ap wedi mynd ar-lein. Allwch chi helpu Tex drwy benderfynu a yw pob datganiad isod yn gywir neu'n anghywir? Bydd hyn yn ei helpu i brofi beth mae'n ei wybod ac i deimlo'n fwy hyderus ar-lein. **Darllenwch bob brawddeg yn ofalus ac yna rhowch gylch o amgylch “Cywir” neu “Anghywir”.**

1. Rydych chi bob amser yn cael gwybod pan fydd gêm neu ap yn mynd ar-lein.
   **Cywir / Anghywir**
2. Os gallwch chi sgwrsio neu glywed lleisiau, mae'n debyg eich bod chi ar-lein.
   **Cywir / Anghywir**
3. Mae'r holl gymeriadau rydych chi'n cwrdd â nhw mewn gemau yn cael eu rheoli gan y cyfrifiadur.
   **Cywir / Anghywir**
4. Mae rhestr ffrindiau fel arfer yn golygu eich bod yn gallu cysylltu â phobl eraill.
   **Cywir / Anghywir**
5. Mae'n fwy diogel siarad dim ond â phobl rydych chi'n eu hadnabod go iawn.
   **Cywir / Anghywir**
6. Os ydych chi’n teimlo’n ansicr neu’n ddryslyd ar-lein, mae’n well dal ati i chwarae.
   **Cywir / Anghywir**
7. Mae gofyn i oedolyn y gellir ymddiried ynddo am help yn ddewis da.
   **Cywir / Anghywir**
8. Gall gemau newid rhwng bod all-lein ac ar-lein heb lawer o rybudd.
   **Cywir / Anghywir**



# HELPU KATIE I GADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Mae Katie, fel Tex, yn mwynhau cymryd rhan mewn gemau. Weithiau gall chwarae gemau ar-lein deimlo'n ddryslyd, yn annisgwyl neu ychydig yn bryderus. Roedd Tex yn teimlo fel hyn pan glywodd leisiau ac nid oedd yn gwybod pwy oedden nhw. Allwch chi helpu Katie drwy ychwanegu'r ymateb gorau at bob un o'r brawddegau isod? **Dewiswch un ymateb o'r 'Gronfa ymatebion' ar gyfer pob brawddeg a'i ysgrifennu yn y blwch cywir. Bydd hyn yn helpu Katie i benderfynu beth i'w ddweud neu ei wneud nesaf.**

**Rhan 1**

1. "Rydw i'n gallu clywed lleisiau... rydw i'n meddwl efallai fy mod i

_______________."

2. "Dydw i ddim yn siŵr pwy sy'n siarad, felly fe wna i

_______________."

3. "Os yw rhywbeth yn teimlo'n rhyfedd, fe ddylwn i

_______________."

4. "Dewis diogel fyddai

_______________."

5. "Os ydw i'n poeni, rydw i'n gallu siarad â

_______________."

## CRONFA YMATEBION

| | | |
|---|---|---|
| **ar-lein** | **stopio ac edrych ar fy ngosodiadau** | **rhiant, gofalwr neu athro** |
| **oedi'r gêm** | **ddweud wrth oedolyn** | |

# CWIS DIOGELWCH AR-LEIN

**Rhan 2**
**Nawr, allwch chi helpu Katie i ddewis yr ymateb mwyaf diogel i bob sefyllfa isod? Ticiwch yr ateb gorau.**

**① Mae Katie yn clywed llais newydd dydy hi ddim yn ei adnabod**

- ◌ Parhau i chwarae a'i anwybyddu
- ◌ Diffodd y sain a dweud wrth neb
- ◌ Stopio a gofyn i oedolyn y gellir ymddiried ynddo

**② Mae rhywun yn dechrau gofyn cwestiynau personol i Katie**

- ◌ Ateb yn gwrtais
- ◌ Rhwystro neu riportio’r person a dweud wrth oedolyn
- ◌ Gofyn llawer o gwestiynau yn ôl iddyn nhw

**③ Mae Katie'n teimlo'n ansicr ond does dim byd drwg wedi digwydd eto**

- ◌ Parhau i chwarae beth bynnag
- ◌ Edrych ar y gosodiadau neu ofyn am help
- ◌ Rhoi'r gorau i chwarae gemau am byth




## CADW’N DDIOGEL AR-LEIN

Mae teimlo'n ansicr yn arwydd i stopio a gofyn am help.

# CHWILAIR DIOGELWCH AR-LEIN

Mae Katie yn cael seibiant o fod ar-lein ac mae hi wedi penderfynu rhoi cynnig ar chwilair sy'n archwilio diogelwch ar-lein. **Allwch chi ei helpu i ddod o hyd i'r 12 gair yn y chwilair isod? Mae'r geiriau yn gallu darllen ar draws, i lawr neu'n groesgornel. Mae llythrennau dwbl yn ymddangos mewn dwy sgwâr ac nid mewn un.**

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | Y | R | N | Y | P | E | I | E | H | T | P | T | O | I |
| U | O | O | U | U | N | M | H | E | S | R | R | C | I | B |
| D | E | S | Y | A | F | O | W | C | N | N | E | Y | S | W |
| P | O | S | O | I | I | T | A | D | T | U | I | M | R | O |
| I | R | Y | L | D | D | J | O | F | N | P | F | D | W | I |
| A | T | I | S | N | I | F | S | N | D | Y | A | D | G | T |
| J | S | Y | S | I | W | A | A | G | E | M | T | I | S | R |
| F | Y | T | S | R | A | H | D | W | L | R | R | R | A | O |
| D | W | M | J | F | R | H | B | A | H | U | W | I | C | P |
| C | H | R | C | F | T | E | E | R | U | T | Y | E | F | I |
| I | R | S | W | O | G | T | G | J | N | Y | D | D | M | R |
| C | A | R | E | D | I | G | R | W | Y | D | D | P | S | P |
| D | H | H | C | L | A | C | Y | F | R | I | N | A | I | R |
| U | T | D | I | O | G | E | L | W | C | H | H | U | H | A |
| C | Y | B | A | R | L | E | I | N | H | C | B | L | C | S |




## GEIRIAU I'W CANFOD

- Cyfrinair
- Ffrindiau
- Rhwystro
- Ar-lein
- Gosodiadau
- Ymddiried
- Caredigrwydd
- Rhannu
- Preifatrwydd
- Diogelwch
- Riportio
- Sgwrsio

# CANFOD Y CLIWIAU AR-LEIN

Mae Katie yn gwybod bod gemau weithiau'n mynd ar-lein yn gyflymach na'r disgwyl. Allwch chi ei helpu i chwilio am gliwiau sy'n dangos pryd gallech chi fod wedi'ch cysylltu â phobl eraill? Cymerwch gip ar y geiriau isod. **Rhowch gylch o amgylch y rhai a allai olygu eich bod chi ar-lein ac wedi'ch cysylltu â phobl eraill.**

Sgwrsio

Cysylltiad â'r Rhyngrwyd

Gêm Gyhoeddus

Chwaraewyr Ar-lein

Modd Ymarfer

Un Chwaraewr

Modd All-lein

Byw

Gwahoddiad

Aml-chwaraewr

Sgwrs Llais

Chwarae yn erbyn y Cyfrifiadur

Wi-Fi

Ymuno






# RHEOLAETHAU RHIENI A PHREIFATRWYDD

Pan fydd Katie a Tex ar-lein, maen nhw'n gwybod y dylid cadw rhywfaint o wybodaeth yn breifat. Yn union fel mewn bywyd go iawn, mae'n bwysig meddwl yn ofalus am yr hyn rydych chi'n ei rannu ar-lein. Efallai y bydd gemau ac apiau'n gofyn am wybodaeth, ond does dim rhaid i chi rannu popeth.

Mae llawer o apiau a gwefannau yn cynnwys gosodiadau preifatrwydd a rheolaethau rhieni. Mae'r adnoddau hyn yn helpu i benderfynu pwy sy'n gallu gweld gwybodaeth, pwy sy'n gallu siarad â chi a pha gynnwys sy'n addas ar gyfer gwahanol oedrannau. Drwy ddysgu sut mae defnyddio'r adnoddau hyn gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo, gall Katie a Tex fwynhau technoleg ar yr un pryd â chadw'n ddiogel.



# RHANNU NEU BEIDIO?

Mae Tex wedi sylwi bod gemau ac apiau yn aml yn gofyn llawer o gwestiynau. Nid oes angen rhannu popeth ar-lein. **Allwch chi helpu Tex i ddewis pryd mae'n fwy diogel peidio â rhannu gwybodaeth? Ticiwch y dewis gorau ar gyfer pob enghraifft.**

1. "Pa gêm wyt ti'n hoffi?"
   ◌ **Rhannu** ◌ **Dim Rhannu**

2. "Ble wyt ti'n byw?"
   ◌ **Rhannu** ◌ **Dim Rhannu**

3. "Beth yw dy enw defnyddiwr?"
   ◌ **Rhannu** ◌ **Dim Rhannu**

4. "I ba ysgol wyt ti'n mynd?"
   ◌ **Rhannu** ◌ **Dim Rhannu**



# YMARFER PARU RHEOLAETHAU RHIENI

Mae Katie yn gwybod bod teuluoedd yn gallu defnyddio rheolaethau i gadw'n ddiogel ar-lein gyda'i gilydd. Mae'r adnoddau hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod y cynnwys yn addas ar gyfer gwahanol oedrannau. **Allwch chi helpu Katie i gyfateb yr holl reolaethau i'r hyn maen nhw'n ei wneud?**

| | |
|---|---|
| Cyfyngiadau oedran | Penderfynu â phwy y gallwch chi siarad |
| Cyfyngiadau amser | Helpu i reoli amser o flaen sgrin |
| Rheolaethau sgwrsio | Dangos canlyniadau defnyddiol a diogel |
| Chwilio diogel | Stopio cynnwys sydd wedi'i fwriadu ar gyfer oedolion |



# BETH DDYLAI TEX EI WNEUD?

Weithiau mae angen i Tex wneud dewisiadau am breifatrwydd a gosodiadau pan fydd ar-lein ac yn chwarae gemau. Gall meddwl yn ofalus ei helpu i gadw'n ddiogel. **Cymerwch gip ar y cwestiynau isod. Ticiwch yr atebion gorau i gadw Tex yn ddiogel.**

**1 Mae Tex yn dechrau gêm newydd ac mae'n gofyn iddo ddefnyddio'r nodwedd sgwrsio â phawb**

- ◌ Gwneud hynny ar unwaith fel nad yw'n colli dim
- ◌ Gofyn i oedolyn a dewis Ffrindiau yn Unig
- ◌ Anwybyddu'r neges a dal ati i chwarae

**2 Mae gêm yn gofyn i Tex rannu ei enw go iawn a'i ysgol**

- ◌ Rhannu'r wybodaeth er mwyn i'r gêm weithio'n well
- ◌ Anwybyddu'r cwestiwn neu ofyn i oedolyn am help
- ◌ Rhoi gwybodaeth ffug a dal ati i chwarae

**3 Mae Tex eisiau newid ei osodiadau preifatrwydd ond nid yw'n siŵr beth mae'r botymau'n ei olygu**

- ◌ Dyfalu a gobeithio ei fod yn gywir
- ◌ Gofyn i oedolyn y gellir ymddiried ynddo edrych ar y gosodiadau gydag ef
- ◌ Gadael y gosodiadau nes ei fod yn gwybod beth maen nhw'n ei olygu

**④ Mae Tex yn gweld gosodiad sy'n dweud "Proffil Cyhoeddus"**

- ◯ Pwyso'r botwm fel bod pawb yn gallu gweld ei broffil
- ◯ Ei adael heb holi neb am gyngor
- ◯ Dewis opsiwn mwy preifat neu ofyn i oedolyn

**④ Mae Tex eisiau chwarae ar-lein gyda ffrindiau mae'n eu hadnabod go iawn**

- ◯ Newid y gêm i "Gwahoddiad yn Unig"
- ◯ Gadael i unrhyw un ymuno â'r gêm
- ◯ Diffodd pob gosodiad diogelwch

### CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Mae gosodiadau preifatrwydd yn gweithio orau pan fydd plant ac oedolion yn eu defnyddio gyda'i gilydd. Os nad ydych chi'n siŵr, stopiwch a gofyn am help.

### CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Mae technoleg yn gweithio orau pan fydd pobl yn ei dylunio i helpu eraill. Gallwch ddefnyddio eich syniadau i wneud mannau ar-lein yn fwy diogel.






# CADW'N DDIOGEL: BETH RYDYCH CHI'N EI WYBOD?

Mae Katie a Tex yn gwybod bod gosodiadau preifatrwydd a rheolaethau rhieni yn helpu i gadw pobl yn ddiogel ar-lein. Gall gwirio beth rydych chi'n ei wybod eich helpu i deimlo'n fwy hyderus pan fyddwch chi'n defnyddio gemau ac apiau. **Allwch chi ddarllen pob brawddeg isod yn ofalus a rhoi cylch o amgylch naill ai 'Cywir' neu 'Anghywir' ar gyfer pob un?**

1. Mae'n rhaid i chi rannu'r holl wybodaeth y mae gêm neu ap yn gofyn amdani.
   **Cywir / Anghywir**
2. Gall gosodiadau preifatrwydd helpu i benderfynu pwy all weld eich gwybodaeth.
   **Cywir / Anghywir**
3. Mae'r rheolaethau rhieni yn gallu helpu i wneud yn siŵr bod y cynnwys yn addas ar gyfer gwahanol oedrannau.
   **Cywir / Anghywir**
4. Mae'n fwy diogel newid gosodiadau preifatrwydd gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo.
   **Cywir / Anghywir**
5. Mae proffil cyhoeddus yn golygu bod unrhyw un yn gallu gweld eich gwybodaeth.
   **Cywir / Anghywir**
6. Mae gosodiadau chwilio diogel yn helpu i ddangos canlyniadau defnyddiol a phriodol.
   **Cywir / Anghywir**
7. Os nad ydych chi'n siŵr am osodiad, mae'n iawn gofyn am help.
   **Cywir / Anghywir**
8. Mae gosodiadau preifatrwydd yn golygu nad oes angen i chi feddwl am yr hyn rydych chi'n ei rannu.
   **Cywir / Anghywir**

# PA WYBODAETH DDYLAI AROS YN BREIFAT?

Mae Katie yn gwybod y dylid cadw rhywfaint o wybodaeth yn breifat pan fydd hi ar-lein. Weithiau gall fod yn anodd dweud beth sy'n ddiogel i'w rannu. Allwch chi helpu Katie i benderfynu pa wybodaeth ddylai aros yn breifat? **Edrychwch ar yr wybodaeth isod a rhoi cylch o amgylch y pethau ddylai aros yn breifat.**

**Eich enw llawn**

**Eich rhif ffôn**

**Enw eich ysgol**

**Eich hoff gêm**

**Eich hoff liw**

**Eich cyfeiriad**

**Un o'ch hoff gymeriadau cartŵn**

**Eich lleoliad**

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Meddyliwch am y peth: Pam y gallai fod yn fwy diogel cadw rhywfaint o wybodaeth yn breifat ar-lein?






# RHWYSTRO, RIPORTIO AC OEDOLION Y GELLIR YMDDIRIED YNDDYNT

Weithiau, dydy bod ar-lein ddim yn teimlo'n iawn. Efallai y bydd rhywun yn dweud rhywbeth cas neu ddryslyd, neu efallai y byddwch chi'n gweld rhywbeth sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n bwysig cofio nad ydych chi ar eich pen eich hun a bod cymorth ar gael.

Mae Katie a Tex yn gwybod bod gemau ac apiau'n cynnwys adnoddau fel rhwystro a riportio. Mae rhwystro yn atal rhywun rhag cysylltu â chi, ac mae riportio yn gadael i dîm y gêm neu'r ap wybod nad yw rhywbeth yn iawn. Yn bwysicaf oll, gallwch bob amser siarad ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo, fel rhiant, gofalwr neu athro. Mae gofyn am help yn ffordd glyfar a diogel o gadw'n ddiogel ar-lein.



# PAN NAD YW RHYWBETH YN TEIMLO'N IAWN


Mae Katie yn gwybod y dylai bod ar-lein deimlo'n ddiogel ac yn gyfeillgar. Weithiau gall negeseuon neu ymddygiad wneud i chi deimlo'n anghyfforddus. **Allwch chi helpu Katie i benderfynu pa sefyllfaoedd sy'n golygu ei bod hi'n amser stopio a gofyn am help? Darllenwch bob brawddeg isod a rhoi ✓ wrth ymyl y rhai lle dylech stopio a gofyn am help.**

## TICIWCH OS DYLECH STOPIO A GOFYN AM HELP

| | |
|---|---|
| Mae rhywun yn bod yn gas mewn sgwrs | ◌ **Gofyn am help** |
| Mae rhywun yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol | ◌ **Gofyn am help** |
| Mae cymeriad mewn gêm yn gosod tasg i chi | ◌ **Gofyn am help** |
| Mae rhywun yn gwneud i chi deimlo'n bryderus neu'n ddryslyd | ◌ **Gofyn am help** |
| Mae neges yn gwneud i chi deimlo'n ofidus | ◌ **Gofyn am help** |
| Rydych chi'n ennill gwobr yn y gêm | ◌ **Gofyn am help** |

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Os bydd rhywbeth ar-lein yn gwneud i chi boeni, stopiwch a gofyn am help. Does dim rhaid i chi ddelio â'r peth ar eich pen eich hun.



# BETH MAE'R BOTYMAU HYN YN EI WNEUD?

Mae Tex wedi sylwi bod gan gemau ac apiau lawer o fotymau sy'n helpu i gadw pobl yn ddiogel. Weithiau nid yw'n glir beth mae pob botwm yn ei wneud i ddechrau. **Allwch chi helpu Tex i ganfod beth yw pwrpas y botymau hyn a sut maen nhw'n helpu i gadw defnyddwyr yn ddiogel ar-lein? Ysgrifennwch y disgrifiad cywir yn y blwch wrth ymyl pob botwm. Mae'r disgrifiadau y gallwch ddewis ohonynt ar waelod y dudalen.**

| | |
|---|---|
| RHWYSTRO | |
| RIPORTIO | |
| TEWI | |
| HELP / CYMORTH | |
| GOSODIADAU PREIFATRWYDD | |
| SGWRSIO Â FFRINDIAU YN UNIG | |
| GWAHODDIAD YN UNIG | |
| CHWILIO DIOGEL | |

**Disgrifiadau (dewiswch un ar gyfer pob un o'r botymau uchod):**

- Dim ond pobl rydych chi'n eu hadnabod sy'n cael siarad â chi
- Rhoi gwybodaeth am ddiogelwch a ble i gael help
- Helpu i ddangos canlyniadau chwilio diogel a phriodol
- Gadael i chi ddewis pwy all weld eich gwybodaeth
- Atal rhywun rhag cysylltu â chi neu anfon negeseuon atoch chi
- Atal pobl ddieithr rhag ymuno â'ch gêm
- Dweud wrth dîm y gêm neu'r ap bod rhywbeth o'i le
- Diffodd sain neu negeseuon gan rywun

# RHWYSTRO, RIPORTIO NEU DDWEUD WRTH OEDOLYN?

Mae Katie wedi dysgu bod angen ymatebion gwahanol ar gyfer gwahanol broblemau ar-lein. Weithiau gall rhwystro, riportio neu ddweud wrth oedolyn helpu i gadw pobl yn ddiogel. **Allwch chi ei helpu i ddewis y camau gorau ar gyfer pob sefyllfa isod drwy roi ✓ yn y blychau ymateb cywir? Efallai y byddwch yn penderfynu ticio mwy nag un blwch.**

**A)** Mae rhywun yn anghwrtais mewn sgwrs

◌ **Rhwystro** ◌ **Riportio** ◌ **Dweud wrth oedolyn**

**B)** Mae rhywun yn anfon negeseuon atoch chi drwy'r amser

◌ **Rhwystro** ◌ **Riportio** ◌ **Dweud wrth oedolyn**

**C)** Rydych chi'n gweld rhywbeth sy'n eich dychryn

◌ **Rhwystro** ◌ **Riportio** ◌ **Dweud wrth oedolyn**

**D)** Mae chwaraewr yn twyllo mewn gêm

◌ **Rhwystro** ◌ **Riportio** ◌ **Dweud wrth oedolyn**

## DIFFINIADAU

**Rhwystro:** Mae rhwystro yn atal rhywun rhag cysylltu â chi. Fyddwch chi ddim yn gweld eu negeseuon nac yn clywed eu llais mwyach.

**Riportio:** Mae riportio yn dweud wrth dîm y gêm neu'r ap bod rhywbeth o'i le. Maen nhw'n gallu ymchwilio i'r mater a helpu i gadw pobl yn ddiogel.

**Dweud wrth Oedolyn:** Mae dweud wrth oedolyn yn golygu siarad â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddo, fel rhiant, gofalwr neu athro. Gallant eich helpu i benderfynu beth i'w wneud nesaf.

# PWY ALL EICH HELPU CHI?

Mae Tex yn gwybod nad oes rhaid i neb ddelio â phryderon ar-lein ar eu pen eu hunain. Gall oedolion y gellir ymddiried ynddynt eich helpu os yw rhywbeth yn teimlo o'i le. **Allwch chi helpu Tex i ddewis â phwy y gallai siarad pe bai rhywbeth yn teimlo o'i le pan fydd ar-lein? Rhowch gylch o amgylch y rhai y gallai siarad â nhw o'r rhestr isod.**

**Rhiant neu ofalwr**

**Hyfforddwr neu arweinydd clwb**

**Brawd/chwaer hŷn**

**Athro**

**Dieithryn ar-lein**


**Oedolyn arall rydych chi'n ymddiried ynddo**

## PWY SY'N OEDOLYN Y GELLIR YMDDIRIED YNDDO?

Oedolyn rydych chi'n ei adnabod, yn ymddiried ynddo ac yn teimlo'n ddiogel yn siarad ag ef yw oedolyn y gellir ymddiried ynddo. Gallai hyn fod yn rhiant, yn ofalwr, yn athro neu'n oedolyn arall sy'n gwrando arnoch chi ac yn eich helpu. Gallwch siarad ag oedolyn rydych chi'n ymddiried ynddo os bydd rhywbeth ar-lein yn gwneud i chi deimlo'n bryderus, yn ddryslyd neu'n ofidus.

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Pwrpas rhwystro a riportio yw eich amddiffyn chi. Mae eu defnyddio'n ddewis doeth.








# SWYDDI TECHNOLEG DDIOGEL A GYRFAOEDD YN Y DYFODOL

Ydych chi erioed wedi meddwl pwy sy'n helpu i gadw gemau, apiau a gwefannau'n ddiogel? Mae Katie a Tex wedi darganfod bod llawer o bobl yn gweithio y tu ôl i'r llenni i ddylunio technoleg sy'n hwyl ac yn ddiogel. Mae rhai pobl yn creu gosodiadau preifatrwydd, mae eraill yn edrych ar adroddiadau i ddatrys problemau, ac mae rhai yn helpu i ddysgu cyfrifiaduron a deallusrwydd artiffisial i ymddwyn yn ddiogel ac yn deg.

Wrth i chi ddysgu am ddiogelwch ar-lein, rydych chi hefyd yn dysgu sgiliau sy'n cael eu defnyddio mewn swyddi technoleg go iawn, fel sylwi ar broblemau, meddwl yn ofalus a helpu eraill. Does dim angen i chi ddewis swydd nawr, ond gallai'r sgiliau hyn eich helpu yn y dyfodol. Un diwrnod, efallai y byddwch chi'n helpu i ddylunio gêm, adeiladu ap neu greu byd mwy diogel ar-lein i bawb.


C++

# PWY SY'N EIN CADW NI'N DDIOGEL AR-LEIN?

Mae Katie yn gwybod bod llawer o bobl yn gweithio y tu ôl i'r llenni i gadw gemau ac apiau'n ddiogel. Mae'r bobl hyn yn defnyddio technoleg i helpu eraill. **Allwch chi helpu Katie i gyfateb pob swydd i'r hyn maen nhw'n ei wneud drwy ysgrifennu'r teitl swydd cywir yn y blwch wrth ymyl pob esboniad?**

**Beth maen nhw'n ei wneud:**

**A)** Helpu i atal ymddygiad niweidiol ar-lein

**B)** Creu gemau difyr a diogel

**C)** Dysgu cyfrifiaduron i fod yn garedig ac yn deg

**D)** Edrych am batrymau i wella diogelwch

**Swyddi y mae angen i chi eu cyfateb i'r disgrifiad:**




**Cynorthwyydd AI**



**Dadansoddwr Data**



**Dylunydd Gemau**



**Peiriannydd Diogelwch**

# SGILIAU SYDD GENNYCH CHI'N BAROD

Mae Tex wedi dysgu nad oes angen i chi fod yn oedolyn i ddechrau dysgu sgiliau technoleg. Rydych chi'n ymarfer llawer o'r sgiliau hyn bob dydd, hyd yn oed heb sylweddoli hynny. **Mae Tex eisiau i chi feddwl am y sgiliau sydd gennych nawr a sut gallent eich helpu mewn swydd yn y dyfodol sy'n defnyddio technoleg.**

**Ticiwch yr holl sgiliau rydych chi'n eu defnyddio'n barod yn y rhestr isod:**

- Datrys problemau
- Bod yn garedig ac yn barchus
- Sylweddoli pan nad yw rhywbeth yn iawn
- Gofyn am help
- Bod yn greadigol
- Gweithio fel tîm

**Pa swyddi allai ddefnyddio'r sgiliau rydych chi wedi'u ticio? Ysgrifennwch y swyddi y gallwch feddwl amdanynt isod.**
*Swyddi technoleg ddiogel sy'n defnyddio'r sgiliau sydd gen i...*

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Does dim angen i chi fod yn oedolyn i ddechrau dysgu sgiliau technoleg. Mae bod yn garedig, yn chwilfrydig a datrys problemau yn sgiliau technoleg pwysig.

# DOD YN GYNORTHWYYDD DIOGELWCH DIGIDOL

Mae Katie yn hoffi dychmygu sut gallai technoleg fod hyd yn oed yn fwy diogel yn y dyfodol. Mae rhai pobl yn helpu drwy ddylunio rheolau ac adnoddau i ddiogelu eraill ar-lein. **Allwch chi helpu Katie i fod yn gynorthwyydd diogelwch digidol? Dychmygwch eich bod yn helpu i gadw byd ar-lein yn ddiogel. Atebwch y cwestiynau isod i ddangos beth fyddech chi'n ei wneud fel Cynorthwyydd Diogelwch Digidol.**

1. **Gyda pha fath o ap, gêm neu wefan ydych chi'n helpu?**

2. **Sut byddech chi'n helpu pobl i gadw'n ddiogel?**

3. **Pa reol fyddech chi'n ei gwneud i helpu pawb i fod yn garedig?**

**Defnyddiwch y lle gwag hwn i dynnu llun unrhyw fotymau neu nodweddion y byddech chi'n eu cynnwys yn eich syniadau i helpu i gadw pobl eraill yn ddiogel ar-lein.**

# AI - DEFNYDDIOL NEU DDIM?

Mae Tex yn gwybod bod angen rheolau clir ar gyfrifiaduron a deallusrwydd artiffisial (AI) i ymddwyn yn ddiogel. Mae rhai negeseuon sy'n cael eu creu gan AI yn ddefnyddiol, ac eraill ddim. **Allwch chi helpu Tex i benderfynu pa negeseuon sy'n ddiogel? Darllenwch bob neges isod a rhowch gylch o amgylch 'Iawn' os yw'n neges ddiogel a chyfeillgar, neu 'Ddim yn iawn' os nad ydyw.**

**Rhai negeseuon ar-lein sy'n cael eu cynhyrchu gan gyfrifiaduron (AI)**

"Hoffet ti glywed ffaith ddifyr am anifeiliaid?"

**IAWN** **DDIM YN IAWN**

"Dywed wrtha i beth yw dy gyfeiriad er mwyn i fi allu dy helpu."

**IAWN** **DDIM YN IAWN**

"Wyt ti eisiau clywed jôc?"

**IAWN** **DDIM YN IAWN**

"Clicia'r ddolen i ennill gwobr."


**IAWN** **DDIM YN IAWN**

"Os wyt ti'n teimlo'n ansicr, dylet ofyn i oedolyn am help."

**IAWN** **DDIM YN IAWN**

## CADW'N DDIOGEL AR-LEIN

Mae dysgu am ddiogelwch ar-lein yn eich helpu chi nawr ac yn y dyfodol. Gallech chi helpu i wneud y byd ar-lein yn lle gwell.



# ATEBION

### TUDALEN 4: PWY SY'N SIARAD?

1. GÊM - Draig yn gosod tasg i chi fel rhan o stori'r gêm.
2. GO IAWN - Cymeriad o'r enw "CoolGamer99" yn defnyddio clustffon.
3. GO IAWN - Efa, eich ffrind, yn chwarae o'i thŷ.
4. GÊM - Ceidwad siop sydd bob amser yn dweud yr un peth.
5. GO IAWN - Chwaraewr yn teipio negeseuon yn y blwch sgwrsio.
6. GÊM - Robot yn rhoi awgrymiadau ar gyfer gemau.
7. GO IAWN - Rhywun yn gofyn cwestiynau amdanoch chi eich hun.
8. GÊM - Cymeriad y mae ei eiriau'n newid yn dibynnu ar yr hyn rydych chi'n ei wneud.

### TUDALEN 5: CYWIR NEU ANGHYWIR?

1. Anghywir, 2. Cywir, 3. Anghywir, 4. Cywir, 5. Cywir, 6. Anghywir, 7. Cywir, 8. Cywir

### TUDALENNAU 6-7: HELPU KATIE I GADW'N DDIOGEL AR-LEIN

**RHAN 1**

1. Ar-lein
2. stopio ac edrych ar fy ngosodiadau
3. ddweud wrth oedolyn
4. oedi'r gêm
5. rhiant, gofalwr neu athro

**RHAN 2**

1. Stopio a gofyn i oedolyn y gellir ymddiried ynddo
2. Rhwystro neu riportio'r person a dweud wrth oedolyn
3. Edrych ar y gosodiadau neu ofyn am help

### TUDALEN 8: CHWILAIR DIOGELWCH AR-LEIN

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| G | Y | R | N | Y | P | E | I | E | H | T | P | T | O | I |
| U | O | O | U | U | N | M | H | E | S | R | R | C | I | B |
| D | E | S | Y | A | F | O | W | C | N | N | E | Y | S | W |
| P | O | S | O | I | I | T | A | D | T | U | I | M | R | O |
| I | R | Y | L | D | D | J | O | F | N | P | F | D | W | I |
| A | T | I | S | N | I | F | S | N | D | Y | A | D | G | T |
| J | S | Y | S | I | W | A | A | G | E | M | T | I | S | R |
| F | Y | T | S | R | A | H | D | W | L | R | R | R | A | O |
| D | W | M | J | F | R | H | B | A | H | U | W | I | C | P |
| C | H | R | C | F | T | E | E | R | U | T | Y | E | F | I |
| I | R | S | W | O | G | T | G | J | N | Y | D | D | M | R |
| C | A | R | E | D | I | G | R | W | Y | D | D | P | S | P |
| D | H | H | C | L | A | C | Y | F | R | I | N | A | I | R |
| U | T | D | I | O | G | E | L | W | C | H | H | U | H | A |
| C | Y | B | A | R | L | E | I | N | H | C | B | L | C | S |

### TUDALEN 9: CANFOD Y CLIWIAU AR-LEIN

**AR-LEIN:** Sgwrsio, Cysylltiad â'r Rhyngrwyd, Gwahoddiad, Ymuno, Byw, Aml-chwaraewr, Chwaraewyr Ar-lein, Gêm Gyhoeddus, Sgwrsio Llais, Wi-Fi
**ALL-LEIN:** Modd All-lein, Chwarae yn erbyn y Cyfrifiadur, Modd Ymarfer, Un Chwaraewr

### TUDALEN 12: RHANNU NEU BEIDIO?

**RHANNU:**
Pa gêm wyt ti'n hoffi?
**PEIDIO Â RHANNU:**
Ble wyt ti'n byw? Beth yw dy enw defnyddiwr?
I ba ysgol wyt ti'n mynd?

### TUDALEN 13: YMARFER PARU RHEOLAETHAU RHIENI

Cyfyngiadau oedran → Mae'n stopio cynnwys sydd wedi'i fwriadu ar gyfer oedolion.
Cyfyngiadau amser → Mae'n helpu i reoli amser o flaen sgrin.
Rheolaethau sgwrsio → Penderfynu â phwy y gallwch chi siarad.
Chwilio diogel → Dangos canlyniadau defnyddiol a diogel.

# ATEBION

## TUDALENNAU 14-15: BETH DDYLAI TEX EI WNEUD?

1. Gofyn i oedolyn a dewis Ffrindiau yn Unig
2. Anwybyddu'r cwestiwn neu ofyn i oedolyn am help
3. Gofyn i oedolyn y gellir ymddiried ynddo edrych ar y gosodiadau gydag ef
4. Dewis opsiwn mwy preifat neu ofyn i oedolyn
5. Newid y gêm i "Gwahoddiad yn Unig"

## TUDALEN 16: CADW'N DDIOGEL: BETH RYDYCH CHI'N EI WYBOD?

1. Anghywir, 2. Cywir, 3. Cywir, 4. Cywir, 5. Cywir, 6. Cywir, 7. Cywir, 8. Anghywir

## TUDALEN 17: PA WYBODAETH DDYLAI AROS YN BREIFAT?

**MAE GWYBODAETH BREIFAT YN CYNNWYS:** Enw llawn, Cyfeiriad cartref, Enw'r ysgol, Rhif ffôn, Lleoliad

## TUDALEN 20: PAN NAD YW RHYWBETH YN TEIMLO'N IAWN

- ✓ Mae rhywun yn bod yn gas mewn sgwrs
- ✓ Mae rhywun yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol
- ✓ Mae rhywun yn gwneud i chi deimlo'n bryderus neu'n ddryslyd
- ✓ Mae neges yn gwneud i chi deimlo'n ofidus

## TUDALEN 21: BETH MAE'R BOTYMAU HYN YN EI WNEUD?

**RHWYSTRO:** Atal rhywun rhag cysylltu â chi neu anfon negeseuon atoch chi

**RIPORTIO:** Dweud wrth dîm y gêm neu'r ap bod rhywbeth o'i le

**TEWI:** Diffodd sain neu negeseuon gan rywun

**HELP / CYMORTH:** Rhoi gwybodaeth am ddiogelwch a ble i gael help

**GOSODIADAU PREIFATRWYDD:** Gadael i chi ddewis pwy all weld eich gwybodaeth

**SGWRS FFRINDIAU'N UNIG:** Dim ond pobl rydych chi'n eu hadnabod sy'n cael siarad â chi

**GWAHODDIAD YN UNIG:** Atal pobl ddieithr rhag ymuno â'ch gêm

**CHWILIO DIOGEL:** Helpu i ddangos canlyniadau chwilio diogel a phriodol

## TUDALEN 22: RHWYSTRO, RIPORTIO NEU DDWEUD WRTH OEDOLYN?

**Sefyllfa:**

- Mae rhywun yn anghwrtais mewn sgwrs: Rhwystro-Riportio-Dweud wrth oedolyn
- Mae rhywun yn anfon negeseuon atoch chi drwy'r amser: Rhwystro-Dweud wrth oedolyn
- Rydych chi'n gweld rhywbeth sy'n eich dychryn: Rhwystro-Dweud wrth oedolyn
- Mae chwaraewr yn twyllo: Riportio

## TUDALEN 23: PWY ALL EICH HELPU CHI?

Cylch o amgylch bob un heblaw: Dieithryn ar-lein

## TUDALEN 26: PWY SY'N EIN CADW NI'N DDIOGEL AR-LEIN?


Helpu i atal ymddygiad niweidiol
→ Peiriannydd Diogelwch
Creu gemau difyr a diogel
→ Dylunydd Gemau
Dysgu cyfrifiaduron i fod yn garedig ac yn deg
→ Cynorthwyydd AI
Edrych am batrymau i wella diogelwch
→ Dadansoddwr Data

## TUDALEN 27: SGILIAU SYDD GENNYCH CHI'N BAROD

Gellir ticio pob un gan eu bod yn seiliedig ar y sgiliau sydd gennych chi.

## TUDALEN 29: AI - DEFNYDDIOL NEU DDIM?

1. Iawn
2. Ddim yn iawn
3. Iawn
4. Iawn
5. Iawn




tech she can;

ROYAL AIR FORCE Charitable Trust Inspire

ROYAL AIR FORCE Youth STEM